



HM Government

Adroddiad ar Baratoi ar gyfer Dim Cytundeb



Adroddiad ar Baratoi ar gyfer Dim Cytundeb

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Hydref 2019

Rhagair gan y Prif Weinidog



Ar 23^{ain} Mehefin 2016, pleidleisiodd 17.4 miliwn o bobl dros adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Roedd yn benderfyniad dewr a hyderus. Roedd y refferendwm yn ddigwyddiad hanesyddol, ac fe gododd safbwyntiau cryf ar y naill ochr a'r llall i'r ddadl. Er ei fod wedi ennyn nifer o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, mae hefyd wedi drysu nifer o bobl ynghylch pam bod dinasyddion eraill wedi dewis bwrw eu pleidlais mewn ffordd benodol.

I mi, roedd hi'n glir beth roedd pobl Prydain wedi bwrw eu pleidlais drosto – roeddent wedi pleidleisio dros gael rheolaeth yn ôl dros eu cyfreithiau, eu harian, eu masnach a'u ffiniau.

Roeddent wedi gweld bod yr hyn a arferai fod yn Gymuned Economaidd Ewropeaidd wedi trawsnewid i fod yn rhywbeth mwy gwleidyddol o lawer dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Nid oeddem yn rhan o gymuned economaidd mwyach, ond roeddem yn aelodau o undeb wleidyddol lawn gyda chyllidebau enfawr a chydran cysylltiadau tramor, ac roeddem yn rhwym wrth ddarnau enfawr o reoliadau ar bopeth o dreialon clinigol i TAW.

Mae'n hawdd gweld pam bod y newid hwn wedi creu cymaint o anesmwythder i nifer a synnwyr eu bod wedi colli rheolaeth – heddiw mae gan yr UE bŵer dros bron i bob rhan o'n bywyd domestig. Boed hynny'n fasnach, mewnfudo, cyfraith cystadleuaeth, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, yr amgylchedd, diogelu defnyddwyr, trafnidiaeth, diogelwch, cyfiawnder, diwylliant, twristiaeth, addysg neu hyd yn oed 'ieuenctid'. Bob man edrychwch chi, fe welwch chi arwyddion o dwf yn nylanwad yr UE a gostyngiad cyfatebol mewn rheolaeth ddemocrataidd.

Mae nifer o Aelod-Wladwriaethau'r UE wedi bod yn fwy na bodlon cofleidio'r cynnydd hwn yng nghymhwysedd yr UE i'w polisïau domestig. Mae rhwydd hynt iddynt wneud hynny wrth reswm. Ond nid oedd pobl Prydain mor barod i gymryd y cam hwn. I nifer, roedd yr UE wedi dod yn rhywbeth nad oeddent yn ei hoffi – roeddent yn poeni am effaith erydol ei chymhwysedd cynyddol ar ein sefydliadau democrataidd ac roeddent yr un mor bryderus bod Llys Cyfiawnder Ewrop nawr yn dyfarnu'n rhydd ar ystod eang o faterion, gan gynnwys cwestiynau ynghylch hawliau dynol.

A dweud y gwir, mae nifer o'r rheolau a'r gweithdrefnau a gaiff eu disgrifio dros y tudalennau nesaf wedi cael eu gosod gan yr UE, ond – heb Brexit – na fyddai gan y DU ar ei phen ei hun unrhyw bŵer i'w hamrywio o gwbl. Dyna pam mae'n amser gadael, ar ôl dros 45 o flynyddoedd lle mae cyflymder ac ystod y rheolau sydd wedi cael eu cyflwyno wedi cynyddu y tu hwnt i'r hyn roeddem yn ei ddisgwyl (neu'r hyn a hysbysebwyd) yn 1973. Dyma pam mae Brexit yn gyfle mor gyffrous – mae'n gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i adfer hunan-lywodraethu democrataidd mewn cannoedd o feysydd polisi gwahanol, ond hefyd i adfer hyder yn ein sefydliadau. Roedd yn ganlyniad yr oeddwn wedi ymgyrchu drosto ac, fel Prif Weinidog, rwyf yn benderfynol fy mod am gyflawni hyn cyn diwedd y mis.


Ond os ydym am adfer ffydd yn ein sefydliadau, rhaid i ni sicrhau bod Prydain yn gadael yr UE ar 31 Hydref. Roedd gwleidyddion o bob plaid wedi addo i'r cyhoedd y byddent yn anrhydeddu'r bleidlais, ac os ydym am lwyddo i adfer ffydd yn ein sefydliadau llywodraethol mae'n hanfodol ein bod yn cynnal mandad democrataidd y refferendwm. Rwyf yn gobeithio – ac rwyf yn credu – y byddwn yn gadael gyda chytundeb. Rydym wedi cyflwyno cynnig teg a hyderus i'n cyfeillion Ewropeaidd ac rwyf yn edrych ymlaen at drafod manylion ein cynnig â nhw.

Ond, doed a ddêl, rhaid i ni fod yn barod i adael ar 31^{ain} Hydref – hyd yn oed os ydy hyn yn golygu gadael heb gytundeb. Nid dyma ydy fy newis cyntaf, ond mae'n hanfodol ein bod mor barod â phosibl ar gyfer pob sefyllfa.

Dyna pam i mi roi'r gorchymyn fel Prif Weinidog mai paratoi ar gyfer dim cytundeb oedd tasg ganolog pob swyddog, a dyna pam i mi ofyn i Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn – fy nghyfaill a'm cydweithiwr Michael Gove – ysgwyddo un o'r swyddi pwysicaf yn y llywodraeth: paratoi'r DU ar gyfer Brexit heb gytundeb. Dros y 76 diwrnod diwethaf, mae'r Canghellor wedi bwrw ati i gyflawni'r gwaith gyda'i frwdfrydedd arferol. O ganlyniad i'w waith caled, a gwaith caled nifer o gydweithwyr eraill yn y Cabinet a miloedd o weision sifil, mae ein gwaith paratoi wedi symud ymlaen yn sylweddol, a gallwn nawr ddatgan yn hyderus bod y DU yn barod i adael yr UE heb gytundeb ar 31^{ain} Hydref.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r holl waith caled sydd wedi cael ei wneud dros y misoedd diwethaf, ac mae'n nodi sut mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn hollol barod ar gyfer Brexit heb gytundeb ar 31^{ain} Hydref.

Rwyf yn cymeradwyo'r ymdrechion aruthrol a fu dros y tri mis diwethaf, a'r cyhoeddiad ardderchog hwn. Mae'n dangos ein bod yn barod i anrhydeddu'r addewidion a wnaed i bobl Prydain, ac y *byddwn* yn cydio yn y cyfleoedd roedd cynifer wedi pleidleisio drostynt dair blynedd yn ôl.



Y PRIF WEINIDOG

Y GWIR ANRHYDEDDUS BORIS JOHNSON AS

Rhagarweiniad gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn



Mae dros dair blynedd wedi mynd ers i bobl Prydain bleidleisio dros adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r Llywodraeth hon yn benderfynol ei bod am gynnal y penderfyniad democrataidd hwnnw a chyflawni Brexit ar 31 Hydref 2019.

Ein nod yw sicrhau ein bod yn gallu gadael gyda chytundeb sy'n adlewyrchu ein perthynas hir ac agos gyda'n cyfeillion, ein cynghreiriaid a'n cymdogion yn yr UE.

Tan hynny, byddwn yn gwneud popeth gallwn ni i gael cytundeb da sy'n anrhydeddu'r awydd am newid a welwyd mor amlwg yn y refferendwm, ac sy'n braenaru'r tir ar gyfer dyfodol disglair y tu allan i'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau.

Ond er ein bod yn optimistaidd, rydym hefyd yn realistig ynghylch yr angen i gynllunio ar gyfer pob posibilrwydd. Os na allwn sicrhau cytundeb da gyda'r UE, rhaid i ni fod yn barod i adael heb gytundeb.

Prif flaenoriaeth y Llywodraeth hon, a phrif ffocws fy swydd i, ydy paratoi'n gynhwysfawr ar gyfer Brexit.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi beth fydd yn newid os byddwn yn gadael heb gytundeb ac mae'n egluro'r hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud i baratoi. Mae llawer iawn o waith paratoi wedi cael ei wneud dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'r gwaith hwn wedi cael ei gyflymu a'i gryfhau o dan arweinyddiaeth y Prif Weinidog.

Oherwydd byddwn yn gadael yr Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl, p'un ai a fydd gennym gytundeb ai peidio, yn y pen draw bydd angen nifer o'r paratodau sydd eu hangen os byddwn yn gadael heb gytundeb sut bynnag. Mae gadael heb gytundeb, wrth reswm, yn golygu bod angen i'r darpariaethau hyn fod ar waith yn gynt, ond mae addasu i reolau tollau newydd yn rhan anhepgor o adael yr UE.

Mae'r adroddiad hwn felly'n amlinellu'r hyn y mae angen i fusnesau ac unigolion ei wneud i baratoi ar gyfer Brexit. Mae'n nodi'r materion sy'n sail i'n hymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd – o hawliau dinasyddion a gofynion tollau newydd i ffioedd crwydro ffonau symudol ac adnewyddu pasbortau.

Mewn unrhyw ymdrech fawr, mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am asesu pob risg dan sylw a sicrhau bod cynlluniau ar waith i ddelio â phob posibilrwydd.

Ar hyd pob cam o'r daith, bydd y Llywodraeth yn agored am yr heriau sydd o'n blaenau a byddwn hefyd yn gwbl glir ynghylch y cyfleoedd. Gyda'n gilydd, bydd Llywodraeth,

busnesau a dinasyddion yn gallu cydweithio i baratoi ar gyfer Brexit – ac edrych i'r dyfodol yn hyderus.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Michael Gove', written in a cursive style.

CANGHELLOR DUGIAETH CAERHIRFRYN

Y GWIR ANRHYDEDDUS MICHAEL GOVE AS

Crynodeb gweithredol

Mae'r Deyrnas Unedig (DU) yn paratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Hydref 2019. Er y byddai'n well gan y Llywodraeth adael gyda chytundeb, a byddwn yn gweithio tan yr unfed awr ar ddeg i sicrhau cytundeb, rydym yn fodlon gadael heb gytundeb er mwyn parchu canlyniad y refferendwm.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut mae'r Llywodraeth yn gobeithio achub ar gyfleoedd Brexit, ar yr un pryd â pharatoi ar gyfer gadael heb gytundeb.

Beth mae gadael heb gytundeb yn ei olygu?

Byddai gadael yr UE heb gytundeb yn golygu gadael heb Gytundeb Gadael na fframwaith ar gyfer ein perthynas â'r UE yn y dyfodol. Heb gyfnod gweithredu, byddai angen i fusnesau ac i ddinasyddion addasu ar unwaith i berthynas newydd y DU gyda'r UE.

Yn union ar ôl gadael, byddai'r DU a'r UE yn masnachu â'i gilydd ar delerau Sefydliad Masnach y Byd. Byddai'r DU y tu allan i awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop ac ni fyddai grym uniongyrchol cyfraith yr UE yn berthnasol mwyach.

Ac ystyried y goblygiadau i ddinasyddion, i ddefnyddwyr ac i fusnesau ac i'r economi, blaenoriaeth y Llywodraeth ydy sicrhau sefydlogrwydd. Mewn rhai meysydd, byddai'r Llywodraeth yn gweithredu'n unochrog i ddarparu dilyniant am gyfnod dros dro, ni waeth beth fydd yr UE yn ei wneud.

Pa fath o gyfleoedd a ddaw yn sgil Brexit?

Masnach: Am y tro cyntaf mewn bron i 50 o flynyddoedd, bydd gan y DU bolisi masnach annibynnol, a bydd yn rhydd i fynegi ei llais ei hun yn Sefydliad Masnach y Byd. Byddwn yn gallu gosod ein tariffau ein hunain, gwneud ein penderfyniadau ein hunain ar faterion rheoleiddio, a byddwn yn gallu creu cysylltiadau masnach newydd ac uchelgeisiol o amgylch y byd.

Pobl: Bydd y Llywodraeth yn gallu rhoi diwedd ar y rhyddid i symud a chyflwyno system mewnfudo newydd a thecach a fydd yn blaenoriaethu sgiliau a'r hyn gall pobl ei gyfrannu at y DU, yn hytrach nag o ble y dônt. Bydd ein system newydd a fydd yn seiliedig ar bwyntiau yn golygu ein bod yn gallu denu'r gweithwyr medrus a thalentog sydd eu hangen arnom er mwyn i'r economi barhau i ffynnu.

Cyllid: Mae safonau rheoleiddio uchel a'n rôl arweiniol wrth osod safonau byd-eang yn sylfaen i'n safle fel canolfan ariannol fyd-eang. Bydd ymreolaeth dros reoleiddio hefyd yn golygu ein bod yn gallu ymateb yn hyblyg ac yn gyflym i newidiadau mawr sy'n siapiao'r sector ariannol, fel arloesi technolegol a chyllid gwyrdd.

Ffermio a Physgota: Mae gadael Polisi Amaeth Cyffredin a Pholisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE yn creu llu o gyfleoedd i'r sectorau amaeth-fwyd a physgodfeydd. Bydd rhyddid i ffermwyr barhau i gynhyrchu bwyd sydd gyda'r gorau yn y byd ac y mae modd ei

werthu ym mhedwar ban byd. A bydd rhyddid i ni benderfynu pwy sy'n cael defnyddio ein dyfroedd i bysgota, a beth fydd telerau hynny.

Gwasanaethau Cyhoeddus ac Awdurdodau Lleol: Ar ôl Brexit bydd gan y DU fwy o reolaeth ynghylch sut mae'n ariannu ac yn siapio'r agenda twf lleol. A byddai modd i gyllid arall, sydd ar hyn o bryd yn cael ei wario drwy gronfeydd a rhaglenni'r UE ar wasanaethau cyhoeddus gael ei ddisodli gan opsiynau eraill sy'n gallu darparu gwerth gwell am arian neu sy'n cyd-fynd yn well â blaenoriaethau Llywodraeth y DU.

Iechyd: Bydd y DU yn dal yn un o arweinwyr y byd o ran diogelwch iechyd, diogelwch cleifion a datblygiadau meddygol ar ôl Brexit. Gall cyfleoedd gynnwys rheoleiddio therapïau a meddyginiaethau newydd a fydd yn cael eu datblygu mewn ffyrdd arloesol, a dull syml o gynnal ac adrodd ar dreialon clinigol. Bydd y cryfderau hyn mewn ymchwil iechyd yn cael eu hategu ymhellach gan fisas Trac Cyflym ar gyfer gwyddonwyr sydd gyda'r gorau yn y byd.

Caffael: Mae gadael yr UE yn creu cyfle i ddylunio fframwaith rheoleiddio sy'n hollol newydd ar gyfer caffael cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y DU yn well, yn arwain at ganlyniadau masnachol gwell, yn symlach ac yn fwy hyblyg, yn lleihau'r baich ar y sector cyhoeddus ac ar fusnesau ac sy'n fwy tryloyw.

Sanctsiynau Rhyngwladol: Mae sanctsiynau yn bolisi tramor pwysig ac yn declyn diogelwch gwladol. Os byddwn yn gadael heb gytundeb, byddai'r DU yn mynd ar drywydd polisi sanctsiynau annibynnol i gefnogi buddiannau a gwerthoedd y DU. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu sefydlu trefn sanctsiynau hawliau dynol ymreolaethol yn y DU ar ôl i ni adael yr UE, sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i ddiogelu hawliau dynol ar draws y byd.

Sut mae'r Llywodraeth yn paratoi?

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn paratoi i adael heb gytundeb ers 2016. Yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi mwy na £4 biliwn i gynllunio ar gyfer Brexit cyn 24 Gorffennaf 2019.
- Llofnodi neu sicrhau Cytundebau Masnach a fydd yn parhau gyda gwledydd y tu allan i'r UE, yn ogystal â chytundebau a fydd yn parhau ar draws sectorau allweddol, gan gynnwys hedfan, pŵer niwclear sifil a masnach.
- Recriwtio hyd at 1,000 o staff newydd i helpu i sicrhau diogelwch ac i sicrhau bod pethau'n llifo wrth y ffin.
- Erbyn diwedd mis Medi roedd bron i 1.5 miliwn o bobl eisoes wedi cael statws o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ac roedd 1.7 miliwn wedi gwneud cais. Mae dinasyddion yr UE sydd wedi cael statws preswyllydd sefydlog yn cael yr un mynediad at fudd-daliadau â gwladolion y DU. Bydd dinasyddion yr UE sydd â statws preswyllydd cyn-sefydlog yn cael yr un mynediad â nawr, nes eu bod wedi byw yma am bum mlynedd ac wedyn byddant yn cael yr un mynediad â gwladolion y DU.

- Cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y llyfr statud yn barod ar gyfer Brexit drwy weithio i gyflawni rhaglen deddfu nas gwelwyd o'r blaen.
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon gan nad oes Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn paratoi i adael heb gytundeb.
- Rhyddhau dros 750 darn o gyfarwyddyd sy'n amlinellu effeithiau posibl gadael heb gytundeb a sut y dylai busnesau a masnachwyr baratoi.
- Sicrhau bod gennym dros 15,000 o'r gweision sifil gorau a mwyaf peniog yn gweithio ar Brexit.

Ers 24 Gorffennaf 2019, mae'r Llywodraeth wedi cryfhau ei pharatoadau ar gyfer dim cytundeb. Mae enghreifftiau o'r mesurau ychwanegol hyn yn cael eu hamlinellu isod:

- Roedd y Canghellor wedi dyrannu £2.1 biliwn o gyllid ychwanegol ym mis Awst eleni i gynyddu'r paratoadau ar gyfer dim cytundeb, a £2 biliwn arall i gyflawni Brexit flwyddyn nesaf.
- Mae gan y Llywodraeth ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd, 'Paratoi ar gyfer Brexit', i gynghori pawb ynghylch y camau clir y dylent eu cymryd i baratoi ar gyfer dim cytundeb.
- Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i uwchraddio pensiynau gwladwriaeth y DU ar gyfer y rheini sy'n byw yn Aelod Wladwriaethau'r UE ac yn gymwys, am dair blynedd arall y tu hwnt i ymrwymiad blwyddyn cychwynnol y Llywodraeth ar gyfer pob blwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 tra bydd y Llywodraeth yn ceisio trafod cytundeb newydd gyda'r UE er mwyn i'r uwchraddio barhau.
- Mae'r Llywodraeth wedi lansio cronfa gwerth £10 miliwn er mwyn i sefydliadau busnes a chymdeithasau masnach gefnogi busnesau i baratoi ar gyfer dim cytundeb.
- Mae'r Llywodraeth wedi trefnu Sioeau Teithiol Paratoi ar gyfer Brexit wyneb yn wyneb ar draws y DU er mwyn rhoi gwybodaeth a chynghor i fusnesau ynghylch y camau y dylent eu cymryd.
- Mae'r Llywodraeth wedi lansio teclyn gwirio newydd ar GOV.UK er mwyn i gynulleidfaoedd allu gweld beth mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer Brexit.
- Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau rhagor o Gytundebau Masnach a fydd yn parhau gyda De Corea, Lebanon, SACU+M (Undeb Tollau De Affrica a Mozambique) a Tunisia.
- Mae'r Llywodraeth wedi rhoi cytundeb fframwaith ar waith gydag wyth gweithredwr gan greu rhestr o weithredwyr cymeradwy sy'n gallu cludo nwyddau Categori 1.
- Mae'r Llywodraeth wedi dyrannu rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) i 88,000 o gwmnïau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW ar

draws y DU y mae CThEM yn gwybod sy'n masnachu â'r UE, er mwyn helpu busnesau i barhau i fasnachu gyda chwsmeriaid a chyflenwyr yn yr UE.

- Mae'r Llywodraeth yn datblygu datrysiad seilwaith gwell ar gyfer symudiadau os byddwn yn gadael heb gytundeb ar 31 Hydref 2019 drwy sicrhau chwe swyddfa cyrchfan neu adael amgen gan y Llywodraeth yng Nghaint ac Essex.
- Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu dau Bwyllgor Cabinet i oruchwylio strategaeth a gweithrediadau Brexit.

Bydd angen nifer o'r paratodau hyn ar gyfer Brexit os ydy'r DU yn gadael yr UE gyda neu heb gytundeb. Mae'r Llywodraeth yn ceisio cael y cytundeb masnach rydd 'gorau yn y dosbarth' gyda'r UE. Bydd hyn yn golygu bod angen i'r DU wneud newidiadau mewn sawl maes, ni waeth os cytunir ar berthynas newydd y DU gyda'r UE cyn neu ar ôl Brexit.

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ac i'r cyhoedd ynghylch beth fydd yn newid os byddwn yn gadael heb gytundeb. Mae'n rhoi sylw i ddeddfwriaeth, rheoleiddio a systemau, y camau hollbwysig y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd ac y bydd yn parhau i'w cymryd, a'r camau y mae angen i fusnesau ac i ddinasyddion eu cymryd er mwyn paratoi. Nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys popeth, fodd bynnag, ac mae'n bosibl i amgylchiadau newid. Dylai busnesau a dinasyddion barhau i edrych ar GOV.UK i gael y cyngor manwl mwyaf diweddar.

Ein polisïau

• Pennod 1 - Ffiniau:

Mae'r bennod hon yn nodi beth fydd yn newid wrth y ffin os byddwn yn gadael heb gytundeb. Mae'n edrych ar lif masnach wrth y ffin rhwng y DU a'r UE, a'r newidiadau a fydd yn effeithio ar dollau, trafnidiaeth fasnachol a thariffau. Mae'n cynnwys gwybodaeth a chyngor i fasnachwyr a'r diwydiant ffin ehangach ynghylch y camau perthnasol y bydd angen iddynt eu cymryd, er enghraifft masnachwr sy'n prynu neu'n gwerthu cynnyrch yng ngwledydd yr UE.

Mae hefyd yn cynnwys y camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i ymateb i'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, mae camau gan drydydd partïon yn hollbwysig i sicrhau bod pethau'n dal i lifo mor rhwydd â phosibl wrth y ffin.

• Pennod 2 - Dinasyddion:

Mae'n bennod hon yn ailadrodd ymrwymiad y Llywodraeth i hawliau dros dair miliwn o ddinasyddion yr UE yn y DU ac oddeutu miliwn o wladolion y DU sydd yn yr UE. Mae'n cynnwys y camau y bydd angen iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer pan fydd y DU yn gadael yr UE, a'r camau lliniaru y mae'r Llywodraeth wedi'u rhoi ar waith neu'n mynd ar eu trywydd i sicrhau bod hawliau dinasyddion yn cael eu diogelu. Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi sylw i'r newidiadau a fydd yn effeithio ar wladolion y DU sy'n dymuno teithio i'r UE, a dinasyddion yr UE sy'n dymuno teithio i'r DU, os byddwn yn gadael heb gytundeb.

- **Pennod 3 - Diogelu Data:**

Mae'r bennod hon yn cynnwys y camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i ganiatáu i ddata personol lifo'n rhydd o'r DU i'r UE os byddwn yn gadael heb gytundeb, ar yr un pryd â sicrhau na fydd newid ar unwaith i safonau uchel y DU ar ddiogelu data. Mae angen i sefydliadau yn yr UE ac yn y DU weithredu er mwyn sicrhau bod data personol yn gallu parhau i lifo o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd i'r DU.

- **Pennod 4 - Ynni a'r Amgylchedd:**

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r diwydiant niwclear sifil ar ôl i'r DU adael y Gymuned Ewropeaidd Ynni Atomig (Euratom); rhyng-gysylltwyr ynni a nwy rhwng y DU a'r UE, cyflenwadau tanwydd yn y DU ac effaith gadael Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS). Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau i sicrhau dilyniant pan na fydd y DU yn rhwym bellach wrth reoliadau'r UE ac mae'n parhau i weithio gyda diwydiant i asesu risgiau a rhoi gwybod am y camau y bydd angen i drydydd partïon eu cymryd.

- **Pennod 5 - Gwasanaethau:**

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r newidiadau mewn rheoliadau a fyddai'n berthnasol i'r sector gwasanaethau os byddwn yn gadael heb gytundeb. Mae'n cynnwys y camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i gefnogi busnesau, gan gynnwys deddfu, sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau o'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn cael ffordd i gydnabod eu cymwysterau yn y DU, a chyhoeddi canllawiau gwledydd sy'n cyfeirio allforwyr gwasanaethau yn y DU at wybodaeth hanfodol.

Mae'r bennod hefyd yn nodi'r camau y dylai busnesau eu cymryd i baratoi ar gyfer y DU yn gadael heb gytundeb. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio rheoliadau yng ngwladwriaethau'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd y maent yn gweithredu ynddynt ac ymglyfarwyddo â rheolau mewnfudo'r gwledydd perthnasol.

- **Pennod 6 - Diwydiant:**

Mae'r bennod hon yn cynnwys manylion y newidiadau mewn rheoliadau a fydd yn berthnasol i ddiwydiannau os byddwn yn gadael heb gytundeb. Mae'n cynnwys y camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i gefnogi diwydiant. Mae hefyd yn cynnwys y camau y dylai busnesau eu cymryd i baratoi ar gyfer dim cytundeb, fel ystyried a oes angen cymeradwyaeth newydd arnynt ar gyfer eu cynnyrch a pha ddeunyddiau wedi'u gweithgynhyrchu maent yn eu defnyddio fel mewnbwn yn ogystal â chynnyrch terfynol.

Mae'r bennod hefyd yn sôn am beth fydd yn digwydd o ran bwyd-amaeth a physgod pan fydd y DU yn gadael yr UE. Mae'n nodi'r camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd ac y bydd yn eu cymryd yn y dyfodol, yn ogystal â chamau sy'n cael eu hargymell i drydydd partïon.

- **Pennod 7 - Gwasanaethau Cyhoeddus ac Awdurdodau Lleol:**

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r prif newidiadau y bydd eu hangen i gefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Mae'n cynnwys y camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i baratoi awdurdodau lleol, Fforymau Gwytnwch Lleol, ysgolion a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae'n amlinellu mesurau i sicrhau bod sefydliadau o'r math yma'n parhau i dderbyn cyflenwadau o

nwyddau hollbwysig, fel bwyd a chyflenwadau meddygol. Mae hefyd yn crynhoi'r trefniadau y mae'r Llywodraeth wedi'u rhoi ar waith i gefnogi rhaglenni sy'n derbyn cyllid gan yr UE ar hyn o bryd.

- **Pennod 8 - Gogledd Iwerddon:**

Mae'r bennod hon yn sôn am safbwynt y Llywodraeth mewn nifer o feysydd sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon. Bydd y Llywodraeth yn parhau i gynnal Cytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) ym mhob sefyllfa. Bydd yn parhau i gynnal trefniadau Ardal Deithio Gyffredin ac ni fydd o dan unrhyw amgylchiadau yn gosod seilwaith, archwiliadau neu drefniadau rheoli ar y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Mae'r bennod hon yn rhoi gwybodaeth i ddinasyddion ac yn eu cynghori ynghylch lle bydd angen iddynt weithredu, er enghraifft pan fyddant yn gyrru ar draws y ffin. Mae hefyd yn cynnwys y gofynion ar gyfer busnesau a fydd yn masnachu nwyddau i Ogledd Iwerddon o Iwerddon.

- **Pennod 9 - Gweinyddiaethau Datganoledig, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor:**

Mae'r bennod hon yn sôn am y gwaith y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor i adnabod, deall a lliniaru effeithiau gadael heb gytundeb. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ymgysylltiad gweinidogion a swyddogion, a'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud ar offerynnau statudol, fframweithiau cyffredin a chymorth technegol. Mae hefyd yn amlinellu lle gall pobl ddod o hyd i wybodaeth berthnasol gan Lywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor.

- **Pennod 10 - Ymgyrch Yellowhammer a Diogelwch:**

Mae'r bennod hon yn amlinellu Ymgyrch Yellowhammer, sef y cynlluniau wrth gefn sydd wedi cael eu datblygu gan y Llywodraeth ar sail yr hyn a allai ddigwydd mewn sefyllfa waethaf resymol ar ôl gadael heb gytundeb. Ar ben hynny, mae'r bennod hon hefyd yn nodi sut mae'r Llywodraeth wedi bod yn paratoi'n drwyadl ar gyfer diogelwch parhaus ein dinasyddion.

CCS0819917682

ISBN 978-1-5286-1586-0